(HCC 953)

**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10.30am trwy gyfrwng Microsoft Teams ddydd Iau 2 Gorffennaf 2020**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol:** | Kevin Roberts (Cadeirydd)<br>Melody Chapman, Gareth Wynn Davies (tan 12.30pm), Huw Davies, John T Davies, Rhys Davies, Rachael Madeley Davies, Prys Morgan, Nadine Porter, Catherine Smith a Claire Williams |
| **Trwy Wahoddiad:** | David Thomas a Maria Richards, Llywodraeth Cymru |
| **Y Weithrediaeth yn bresennol:** | Gwyn Howells (Prif Weithredwr)<br>Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)<br>Kirsten Smith (Swyddog Gweithredol Cig Coch) – Eitem 7<br>Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)<br>Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)<br>John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)<br>Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu) |

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i ail cyfarfod ffurfiol y Bwrdd i gael ei gynnal yn rhithiol oddi ar gyfyngiadau clo'r Coronafeirws (Covid-19) ar 23 Mawrth 2020.

Roedd disgwyl i Lywodraeth y DG gyhoeddi peth llacio pellach ar y clo ar 4 Gorffennaf 2020 ar gyfer y sectorau lletygarwch a hamdden, yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth. Roedd Llywodraeth Cymru yn symud yn fwy gofalus ac ni cheid unrhyw lacio buan ar gyfer y sector gwasanaeth bwyd.

O ran HCC ac EIDCymru, dywedodd y Prif Weithredwr fod staff yn dal i weithio'n dda o'u cartrefi a bod yr holl systemau TG yn gweithio'n foddhaol. Roedd y Weithrediaeth yn dal i adolygu cyngor a chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd: -

11 Mai 2020 – Cyfarfod bord gron EERA y Gweinidog i drafod Cyfnod Pontio'r UE.

20 Mai 2020 – Cyfarfod o Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio.

29 Mai 2020 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng nghyfarfod diweddaru llywodraethu Llywodraeth Cymru / HCC.

2 Mehefin 2020 –Pwyllgor Cynghori HCC ar Farchnata (Gweler Eitem 9e).

4 Mehefin 2020 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng nghyfarfod bord gron EERA y Gweinidog i drafod Cyfnod Pontio'r UE.

Roedd cyfarfodydd diweddaru rhithiol y Bwrdd / y Weithrediaeth wedi parhau bob pythefnos yn ystod y cyfnod ansicr hwn, yn ogystal â diweddaru mynych dros y ffôn rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 7 Mai 2020 (HCC 942)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 7 Mai 2020 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

Nodwyd bod materion yn codi o'r cofnodion o gyfarfod y Bwrdd ar ddydd Iau 7 Mai 2020 wedi'u cynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwn (Ddydd Iau 2 Gorffennaf 2020).

EIDCymru

Byddai'r Prif Weithredwr yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bwrdd yn cael ei friffio ar EIDCymru / Amlrywogaeth Cymru yn y cyfarfod ar 4 Tachwedd 2020.

9. **Pwyllgorau HCC (Rhan 1)**

Rhoddwyd sylw i Eitemau 9a, 9b a 9c ar ôl 'Materion yn Codi' am fod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn gorfod ymadael yn gynnar o'r cyfarfod.

***Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg***

a. I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Mercher 10 Mehefin 2020

   Cafwyd adroddiad llafar am yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

b. I gael crynodeb o'r pwyntiau allweddol yn y Datganiadau Ariannol 2019 / 2020 (HCC 947)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

c. I dderbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ar gyfer 2019 / 2020 (HCC 948)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Cadarnhaodd y Bwrdd (Cyfarwyddwyr Anweithredol) nad oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol na newydd o ran eu datganiadau nad oedd yr Archwilwyr yn ymwybodol ohonynt.

Cafodd y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2019 / 2020 eu cymeradwyo gan y Bwrdd.

6. **Y diweddaraf am Brexit - I drafod y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r DG yn ymadael â'r UE**

Nodwyd nad oedd unrhyw wir gynnydd i'w adrodd am yr uchod ond bod Llywodraeth y DG wedi cadarnhau na fyddai'n ceisio estyniad i gyfnod pontio Brexit y tu hwnt i 31 Rhagfyr 2020. Roedd deialog yn parhau rhwng Llywodraethau a'r UE ynghylch y Datganiad Gwleidyddol.

Oherwydd Civid-19, roedd nifer o bryderon i Lywodraethau'r DG a Chymru ynghylch sawl sector, gan gynnwys yr heriau difrifol i'r economi, posibilrwydd dirwasgiad a thwf diweithdra.

Cafwyd trafodaeth gyffredinol am yr effaith debygol ar y diwydiant cig coch a'r canlyniadau o ran trefniadau masnach yn y dyfodol.

Roedd Llywodraeth Cymru yn parhau â gwaith cefndirol cyn yr ymadael. Roedd hyn yn golygu ailddechrau trafodaethau dim-cytundeb â rhanddeiliaid a pharatoi achos(ion) busnes y gallai fod eu hangen ar y Trysorlys i'w hystyried.

7. **I gael diweddariad am Oblygiadau Covid-19 o ran y Farchnad Da Byw a'r effaith ar ddarparu Cynllun Gweithredol HCC 2020 / 2021 (HCC 943)**

Arweiniodd y Prif Weithredwr drafodaeth ar y papur a chymerwyd ei fod wedi'i ddarllen.

Roedd yn dda nodi bod prisiau'r farchnad a chyflenwad gwartheg a defaid wedi bod yn gymharol sefydlog hyd yma yn ystod y pandemig.

Nid oedd unrhyw faterion o bwys i'w hadrodd ar hyn o bryd ynghylch trwybynnau yn y sector lladd-dai. Roedd y rhan fwyaf o ladd-dai yn ymwybodol iawn o'r heriau sy'n eu hwynebu, yn enwedig yn ystod tymor yr hydref / gaeaf.

Cymerwyd bod Papur HCC 943, sef amlinelliad o'r cymhwyso a wnaed hyd yma, wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

Dywedodd y Swyddog Gweithredol fod y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) yng Nghynllun Gweithredol 2020 / 2021 heb eu newid ar hyn o bryd er mwyn dangos fod HCC yn dal i fod yn uchelgeisiol ar gyfer diwydiant cig coch Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Gwneid cynnydd â'r holl Ddangosyddion pe bai modd; fodd bynnag, byddai'n anodd nawr i gyrraedd pob nod oherwydd ffactorau y tu hwnt i reolaeth HCC.

Roedd y Bwrdd yn fodlon â hyn.

Roedd darpariaeth Cynllun Gweithredol 2020 / 2021 a'i gyllidebau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Weithrediaeth a châi'r Bwrdd ddiweddariad pellach yn ei gyfarfod ar 3 Medi.

8. **Adroddiadau HCC**

a. Gweithgareddau (HCC 944)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

b. Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 945)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

c. Diweddariad am ddigwyddiadau (HCC 946)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Cyfathrebu.

Roedd disgwyl penderfyniad gan drefnwyr ffair fasnach SIAL Paris (18 – 22 Hydref 2020) a fyddai'r ffair yn digwydd ai peidio.

Sioe Frenhinol Rithwir Cymru 2020 – Rhoddwyd diweddariad am y modd y byddai HCC yn cymryd rhan eleni ar lwyfan rhithwir. Byddai HCC yn cymryd rhan mewn naw sesiwn rhithwir a fyddai'n cynnwys arddangosiadau coginio gan gogyddion â sêr Michelin. Hefyd, rhoddwyd y diweddaraf am brosiectau i'r diwydiant.
Gwnaed trefniadau ar gyfer anerchiad blynyddol y Gweinidog a'r Cadeirydd ar fore cyntaf y Sioe, sef dydd Llun 20 Gorffennaf 2020. Byddai fideos HCC yn cael eu gweld am y tro cyntaf ar lwyfan rhithwir y Sioe Frenhinol a byddai modd eu gweld wedyn ar gyfryngau cymdeithasol HCC.

d. I gael cyflwyniad am Ymgyrch Cynaliadwyedd HCC, Ionawr – Mawrth 2020

Rhoddodd y Rheolwr Datblygu'r Farchnad drosolwg o'r uchod (ar gael drwy Sharepoint / Gwybodaeth / Cyflwyniadau / Ymgyrch Cynaliadwyedd 02.07.20).

9. **<u>Pwyllgorau HCC (Rhan 2)</u>**

**<u>Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu</u>**

d. <u>I gael adroddiad llafar a derbyn gcofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 7 Mai 2020</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

***<u>Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata</u>***

e. <u>I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Mawrth 2 Mehefin 2020 (HCC 950)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

***<u>Y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE)</u>***

f. <u>I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion drafft o gyfarfod y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE) a gynhaliwyd ddydd Mercher 3 Mehefin 2020 (HCC 951)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

10. **<u>Papur er gwybodaeth: Perfformiad ariannol cyfredol y ffermydd sydd yn Sector Cig Coch Cymru (HCC 952)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

11. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

Nid oedd unrhyw fater arall.

12. **<u>Dyddiadau cyfarfodydd i ddod:</u>**

Cynigiodd y Cadeirydd y gellid nawr cynnal cyfarfodydd diweddaru'r Bwrdd bob pythefnos a mynd yn ôl at eu cynnal yn wythnosol pe bai angen. Cytunodd y Bwrdd â hyn.

Diweddariad am delegynhadledd y Bwrdd – Dydd Iau 16 Gorffennaf 2020
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 3 Medi 2020.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**